**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/MD/1248/16

David Rees AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mawrth 2016

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Chwefror yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Ionawr. Atodaf y wybodaeth ddiweddaraf i ymateb i'r materion a godwyd mewn perthynas â gofal preswyl.

Gobeithio bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

## Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gofal preswyl

### Mater 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd ac eraill yn sicrhau bod asesiadau o gynnydd a datganiadau o sicrwydd yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth fwy tryloyw. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw sicrwydd a roddir yn llawer cliriach i'r Pwyllgor olynol a'r cyhoedd.

### Ymateb

Y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal sy'n gyfrifol am oruchwylio a sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn (CPH) yn cael eu cyflawni. Cytunwyd y bydd diweddariadau chwarterol yn cael eu paratoi ynglŷn â chynnydd. Mae yna gynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd ar y Grŵp Llywio a rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r Comisiynydd. Mae'r diweddariadau a ddarparwyd hyd yma wedi eu cyhoeddi ar wefan y CPH.

Mae argymhellion y Comisiynydd hefyd wedi eu hymgorffori mewn nifer o brosiectau sy'n cael eu datblygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae hyn yn cynnwys cyflwyno fframweithiau arolygu newydd a chasglu data ar-lein gan wasanaethau. Bydd y data a gesglir ac a goladir yn galluogi AGGCC i adrodd ar argymhellion allweddol a wnaed gan y Comisiynydd.

Bydd fframwaith canlyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol hefyd yn dweud wrthym a yw gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn ateb anghenion pobl ac yn gwella'u lles.

**Mater 2**

Mae'r Pwyllgor yn ategu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael. Mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu hariannu’n briodol ac mewn ffordd gynaliadwy ledled Cymru. Mae’n gofyn barn y Gweinidog am bryderon y Comisiynydd ynghylch y Cod Ymarfer mewn perthynas ag eiriolaeth, sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Ymateb**

Ein dull yw sicrhau bod iawnderau pobl a'u hawl i gael eiriolaeth, gan gynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yn cael eu gwneud yn ystyriaeth hanfodol wrth ymarfer dyletswyddau a swyddogaethau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae ein dull wedi ei adeiladu o gwmpas y dyletswyddau amlwg i ganfod beth yw barn, dymuniadau a theimladau pobl a rhoi cymorth i alluogi pobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; i gael llais a rheolaeth fel partner gwirioneddol gyfartal wrth ymwneud â gweithwyr proffesiynol. Mae ein codau'n egluro bod rhaid i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u galluogi i gymryd rhan lawn fel partneriaid cyfartal. Rhaid i hyn gynnwys galluogi unigolyn i gyfleu bod arno ef/hi eisiau i rywun eistedd wrth ei ymyl pan fydd yn cloriannu dewisiadau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch ei ganlyniadau lles.

Mae eiriolaeth yn egwyddor sydd wedi ei nodi ym mhob un o'r codau ymarfer cysylltiedig. Mae'r codau’n datgan yn glir bod rhyddid i unrhyw unigolyn ddewis drosto'i hun a gwahodd unrhyw eiriolwr i'w gynorthwyo i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau. Mae gwaith yn mynd ymlaen o hyd i ddatblygu ac adeiladu gwasanaethau eiriolaeth effeithiol mewn ffordd gymedrol a chynaliadwy er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth y mae pobl yn ei derbyn o ansawdd priodol a'i bod yn defnyddio adborth yn sail i wella. Mae'r codau'n atgyfnerthu awdurdodau lleol a rhaid i fyrddau iechyd:

- asesu, fel rhan o asesiad anghenion eu poblogaeth, beth yw'r amrywiaeth o wasanaethau eiriol sy’n cael eu cynnig yn eu hardal a sicrhau eu bod ar gael a hybu'r ffaith honno fel rhan o'u portffolio o wasanaethau ataliol.
- ystyried sut y gall trefniadau cydgomisiynu gyfrannu at sicrhau gwerth am arian i gomisiynwyr a chynaladwyedd i ddarparwyr; a
- sicrhau bod unigolion a all fod angen, neu a allai elwa o, wasanaethau eiriol yn gwybod amdanynt ac yn gallu eu defnyddio gan gynnwys mewn fformatau addas, hawdd eu deall sy'n medru cyrraedd y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd.

Bu'r Comisiynydd yn bartner annatod yn y grŵp gwaith technegol a gydgynhyrchodd y cod ymarfer ar eiriolaeth. Croesewir cyfranogiad parhaus y Comisiynydd yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth ymhellach gan gynnwys drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Mater 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleisiau preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu clywed. Mae'n credu y dylid defnyddio’r holl fecanweithiau sydd ar gael - gan gynnwys defnyddio aseswyr lleyg - i sicrhau bod gan y rhai sy'n rhedeg, yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal preswyl ddealltwriaeth glir o fywyd bob dydd mewn cartref gofal. Mae’r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio ymhellach sut y mae’n rhagweld y gellir rhoi llais i breswylwyr yn y modd y caiff gwasanaethau gofal preswyl eu rheoleiddio, eu harolygu a’u rhedeg.

**Ymateb**

Mae grymuso pobl a sicrhau bod ganddynt lais a rheolaeth dros eu gofal a'u cefnogaeth yn ganolog i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) hefyd yn gosod gofynion clir ar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i weithio'n agos gyda'r cyhoedd wrth gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol. I AGGCC, mae'n cynnwys cyhoeddi datganiad polisi sy'n ymdrin â chael y cyhoedd i gyfranogi mewn arolygiadau a chynnwys gofalwyr wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio yn ogystal ag adrodd sut y mae wedi llwyddo i wneud hynny yn ei adroddiad blynyddol. I GCC, mae'n cynnwys cyhoeddi datganiad o'i bolisi gyda golwg ar gynnwys y cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Rhoddir y datganiadau polisi a gyhoeddwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ynghylch y dull o weithredu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a datblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd rheoliadau a wneir dan adran 27 y Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r gefnogaeth y byddant yn ei darparu a phwysigrwydd lles yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaethau a gwrando arnynt.

Trafodwyd y defnydd o 'aseswyr lleyg' yn ystod y gwaith o graffu ar yr hyn oedd yn Fil y pryd hynny. Rwyf yn dal o'r farn y bydd creu dosbarth proffesiynol newydd o aseswyr lleyg yn ddianghenraid o gaeth ac na fydd yn sicrhau bod y broses arolygu yn cael ei democrateiddio fel yr ydym ni i gyd yn dymuno.

Bydd llif gwaith arferion da y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn datblygu pecyn croeso ar gyfer y preswylwyr i gyd. Bydd hwn yn egluro'r hyn y dylai’r preswylydd ei ddisgwyl o ran y gwasanaethau a'r cymorth a gynigir, beth yw'r ffordd orau iddo gael hyn a beth yw ei hawliau fel preswylydd.

**Mater 4**

Mae'r Pwyllgor yn nodi’r manteision posibl y gallai darn tebyg o ddeddfwriaeth eu cynnig yn y dyfodol o ran grymuso pobl hŷn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â’r Comisiynydd ei bod yn bwysig sicrhau bod deddfwriaeth yn ystyrlon i'r rhai y mae’n effeithio arnynt, pobl hŷn a deiliaid dyletswydd. At hyn, mae’n cytuno y dylid cynnal ymgynghoriad eang â grwpiau perthnasol wrth fwrw ymlaen â’r gwaith hwn.

**Ymateb**

Mae grymuso pobl yn ganolog i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Un o fwriadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yw sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar les yr unigolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth.

Gwyddom fod nifer y bobl hŷn yng Nghymru'n cynyddu. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn (Cyfnod 3  Byw’n Hirach:Heneiddio’n Dda) yn cydnabod y gwahaniaethu a'r anfantais y gall pobl hŷn eu hwynebu. Cymru oedd y wlad gyntaf i fabwysiadu Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn, sy'n egluro hawliau pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru. Bwriadwyd i’r Datganiad alluogi pobl hŷn i ddeall eu hawliau, a sut y maent yn berthnasol a galluogi pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru i ddefnyddio cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol presennol er mwyn cael cyfiawnder. Bydd o gymorth i'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, drwy ei gwneud yn glir sut y gallant gynorthwyo ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl hŷn ledled Cymru.

Bydd angen i'r rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol gael ei chytuno gan y llywodraeth nesaf.

**Mater 5**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill i fapio'r hyfforddiant a gaiff ei ddarparu ar hyn o bryd ac i ystyried y gwaith ymchwil a wnaed eisoes er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai proses a fydd yn datblygu'n raddol fydd hon ac y bydd angen amser cyn penderfynu ar yr hyfforddiant mwyaf priodol i ddiwallu'r holl anghenion. Serch hynny, mae'n credu bod angen ymgymryd â'r gwaith hwn yn fuan. Er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn ymdrin â phroblemau perthnasol, bydd angen i'r rhai sy'n darparu gofal, a'r rhai sy'n cael gofal, fynd ati i asesu'r sefyllfa'n barhaus. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol i ymdrin â dementia yn cael ei gynnwys yn y pecyn hyfforddi ehangach.

**Ymateb**

Er bod ein cyllidebau wedi eu gwasgu, rydym wedi llwyddo i gynnal ein hymrwymiad sylweddol i gyllido hyfforddiant gofal cymdeithasol ar draws y sector. Mae hyn yn golygu grant o £8.4 miliwn, y mae awdurdodau lleol yn ychwanegu 30% ato. Mae'r arian hwn yn gymorth i gyllido hyfforddiant a ddisgrifir mewn cynlluniau dysgu a datblygu rhanbarthol, a ddatblygwyd gan y sector ar gyfer y sector. Mae pecyn hyfforddiant sefydlu mandadol yn bodoli ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gall hyn yn awr arwain at gymhwyster sefydlu cydnabyddedig.

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cynnal arolwg trylwyr er mwyn dod i wybod mwy am nodweddion, cymhelliad a barn y gweithlu, sy'n ffurfio'r gyfran fwyaf o weithwyr gofal yng Nghymru. Mae hefyd wedi comisiynu fframwaith dysgu ac adnodd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl y mae dementia wedi effeithio arnynt. Bydd Cyngor Gofal Cymru yn newid i Gofal Cymdeithasol Cymru o fis Ebrill 2017. Bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru gylch gwaith ehangach ac adnoddau i ysgogi datblygiad yn y gwasanaeth a'r gweithlu. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw newidiadau mewn perthynas â hyfforddiant mandadol a hyfforddiant arall ar gyfer y gweithlu. Bydd ganddo bwerau ehangach hefyd i reoleiddio hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol lle bydd ganddo bryderon ynghylch ansawdd yr hyfforddiant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £5.59 miliwn o gyllid i ymgyrch Cyfeillion Dementia Cymdeithas Alzheimer am y flwyddyn ddiwethaf, ac mae rhagor o gyllid wedi cael ei gadarnhau drwy grant trydydd sector gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Bydd ein nyrsys cyswllt gofal dementia hefyd yn gallu darparu cyngor i gartrefi gofal ynghylch y modd y gellir cynorthwyo pobl â dementia gan gynnwys rhoi cyngor ynglŷn ag addasiadau penodol a newidiadau fyddai'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pob dydd pobl â dementia.

**Mater 6**

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn egnïol ac yn gyflym i roi’r newidiadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod hanfodion yr agenda gofal yn dod yn rhan annatod o wasanaethau cartrefi gofal. Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd i gydymffurfio â’i hanghenion gweithredu mewn perthynas ag adrodd ar hanfodion gofal mewn cartrefi gofal nyrsio.

**Ymateb**

Rhwng 2009 a 2014, galwodd Llywodraeth Cymru ar bob bwrdd iechyd i gyhoeddi archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol oedd yn cynnwys archwiliad gweithredol, arolwg o brofiad cleifion ac arolwg staff. Yn 2013 a 2014, cafodd yr archwiliadau eu hymestyn i leoliadau cymunedol gyda'r bwriad o gynnwys cartrefi gofal mewn archwiliadau yn y dyfodol.

Newidiodd y gofyn hwn yn 2015 o ganlyniad i ddatblygu'r Safonau Iechyd a Gofal newydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015. Roedd hyn yn dilyn adolygiad y Gweinidog o'r 26 safon ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru (Gwneud yn Dda Gwneud yn Well) a 12 safon hanfodion gofal. Mae'r 22 o Safonau Iechyd a Gofal newydd yn gosod y person yn y canol ac yn pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth gref, llywodraethu ac atebolrwydd. Mae'r 22 o Safonau Iechyd a Gofal newydd hefyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau gofal ac felly o 2016, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am archwiliad Hanfodion Gofal mwyach gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, sydd wedi bod yn adroddiad ynglŷn â phrosesau gofal yn hytrach na chanlyniadau gofal.

Mae system fonitro'r safonau newydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a chaiff fframwaith cyflawni sy'n amlinellu'r dulliau mesur ei gyhoeddi ar ddiwedd Mawrth 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith ar weithredu argymhelliad dau yn adroddiad Flynn, '*In Search of Accountablility*'. Mae'r argymhelliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol datblygu system lle bydd cartrefi gofal yn adrodd am friwiau gwasgu mewn 'cofrestrfa' a bydd y wybodaeth yn cael ei chyfleu i'r awdurdodau sy'n comisiynu gofal yn ogystal ag i'r arolygiaeth gofal. Mae'r gwaith hwn yn gam pwysig mewn datblygu mecanwaith i fonitro perfformiad cartrefi gofal mewn agwedd allweddol ar ofal unigol.

Y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal sy'n gyfrifol am oruchwylio a sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn (CPH) ac adolygiad Flynn yn cael eu cyflawni. Mae yna gynrychiolydd o swyddfa'r Comisiynydd ar y Grŵp Llywio ac felly bydd swyddfa'r Comisiynydd yn cymryd rhan ac yn cael ei chynnwys.

**Mater 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mynd ati i gomisiynu'n strategol ar raddfa ac ar gyflymder a fydd yn datblygu'r sector ymhellach o ran y gwasanaethau a gaiff eu darparu. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau cynnydd yn y maes hwn a'r amser y mae'n credu y bydd ei angen i gyflwyno'r newidiadau.

**Ymateb**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth ynghyd ag anghenion cymorth i ofalwyr. Bydd yr asesiad hwn yn sicrhau bod yna sylfaen glir a phenodol o dystiolaeth yn sail i amrywiaeth o benderfyniadau cynllunio a gweithredu. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fframwaith cyfreithiol i hybu integreiddio a gweithio mewn partneriaeth yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys yr angen am drefniadau partneriaeth, sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol a defnyddio cyllid wedi ei gronni.

Y byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd, a sefydlir ar lefel y bwrdd iechyd, fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn ymateb i asesiad y boblogaeth. Bydd y byrddau hyn yn peri bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â phartneriaid eraill, yn cael eu hintegreiddio er mwyn cynllunio a sicrhau bod gwasanaethau gofal a chefnogaeth arloesol, integredig, yn cael eu darparu i ateb anghenion pobl orau y gellir. Y bwriad yw gwella'r canlyniadau a llesiant drwy weithio'n well mewn partneriaeth a gwneud y gwasanaethau a ddarperir yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Dros y mis hwn, cynhaliwyd cyfres o ddosbarthiadau meistr ar gomisiynu strategol ledled Cymru. Bwriadwyd i'r dosbarthiadau meistr hyn gynorthwyo ymarferwyr i ystyried y dyletswyddau newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r gofynion hyn hefyd yn cynnwys y dyletswyddau i gynnwys pobl wrth ddylunio gwasanaethau gofal a chymorth yn ogystal â hybu modelau gwahanol o ddarparu.

Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol hefyd yn gweithio gyda chomisiynwyr i alluogi cartrefi gofal i ddatblygu dull integredig o gomisiynu gwasanaethau, mewn paratoad ar gyfer datblygu partneriaethau ffurfiol a chyllidebau cronedig o fis Ebrill 2018 i ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y Bwrdd Comisiynu yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr i ddatblygu dull o gomisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd hyn yn golygu newid manylebau a chontractau.

Rwyf yn sefydlu Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol i ategu ac ymgysylltu â'r byrddau rhanbarthol. Disgwyliaf i'r byrddau yrru'r agenda integreiddio yn ei blaen yn ogystal â bod yn fforwm lle y gellir rhannu arferion da. Fel cam cyntaf, bydd gennyf ddiddordeb arbennig i weld sut y mae'r byrddau'n rhannu gwybodaeth (ac yn ei dyrchafu i'r Bwrdd Cenedlaethol) ynglŷn â sut y mae'r newid i wasanaethau ataliol yn cael ei reoli ledled Cymru.

**Mater 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o’i gwaith o gwmpasu deddfwriaeth yn y dyfodol, yn ystyried yn ofalus y ddadl dros sicrhau cysondeb rhwng Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynwyr eraill Cymru o ran eu penodiad a’u tymor gwasanaeth.

**Ymateb**

Bu’r Cabinet yn ystyried yn ofalus creu deddfwriaeth i safoni hyd tymor gwasanaeth Comisiynwyr, yn dilyn adolygiad o rolau a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Fel y gŵyr y Pwyllgor, ni chafodd y Cabinet ei argyhoeddi o'r angen i newid y ddeddfwriaeth bresennol. Rhywbeth i'r llywodraeth newydd, yn dilyn yr etholiadau sydd ar ddod, fydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Bu ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ynglŷn â diwygio rheoliadau'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Byddai hyn yn rhoi pŵer dewisol i'r Prif Weinidog ymestyn tymor y Comisiynydd Pobl Hŷn hyd at uchafswm o ddwy flynedd. Yn dilyn yr estyniad o ddwy flynedd, ni allai'r Comisiynydd presennol nac unrhyw Gomisiynydd yn y dyfodol ailymgeisio am ail dymor.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori o 26 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2015. O'r 31 o atebion, roedd 27 yn cefnogi'r newid.